**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (145)**

**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 21 Mehefin 2005**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl.

.....................................

**2.53pm**
**Datganiad Busnes**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

.....................................

***3.01pm***
***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

**NDM2486 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ynghylch Rheoliadau drafft Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2005; ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau drafft Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mai 2005; ac
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2005; ac

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i Aelodau'r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ynghylch Rheoliadau drafft Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005; ac

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau drafft Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol ag:
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mehefin 2005; ac
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mehefin 2005

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd i Aelodau’r Cynulliad ar 7 Mehefin 2005 ynghylch Gorchymyn drafft Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn drafft Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael ei wneud yn unol ag
i) y rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005; ac
ii) yr arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mai 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**3.02pm**
**Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru**

**.....................................**

**3.56pm**
**Dadl ar Araith y Frenhines**
**NDM2487 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod Mai 2005 i Hydref/ Tachwedd 2006;

2. Yn croesawu cynnwys tri Mesur ar gyfer Cymru’n unig yn y rhaglen, ac y bydd pedwerydd yn cael ei gynhyrchu ar ffurf drafft ar gyfer craffu arno cyn deddfu;

3. Yn nodi bod y Mesurau arfaethedig a ganlyn yn arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau’r Cynulliad:

(a) y Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(b) y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

(c) y Mesur Gwella a Gwarchod Iechyd (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(d) y Mesur Iechyd Meddwl (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(e) y Mesur Plant a Mabwysiadu (Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio)

(f) y Mesur Gwaith a Theuluoedd: Gofal Plant (Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes)

(g) Mesur Iawndal y GIG (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(h) y Mesur Cydraddoldeb (Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal)

(i) y Mesur Elusennau (Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio)

(j) y Mesur Addysg a Sgiliau (Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes)

(k) y Mesur Llety Twristiaeth (Cymru) (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

(l) Mesur Diogelwch y Ffyrdd (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

(m) Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(n) y Mesur Lles Anifeiliaid (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(o) y Mesur Tir Comin (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(p) y Mesur Morol (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(q) Mesur y Loteri Genedlaethol (Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon)

(r) y Mesur Rheoleiddio Gwell (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

4. Yn cynnwys y Mesurau uchod yng nghylchoedd gwaith y pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt eu hystyried fel sydd yn briodol yn eu barn hwy, ac yn gofyn i bob pwyllgor gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted ag sydd yn bosibl;

5. Yn nodi mai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn sydd ar fin ei gyhoeddi, yw cyflwyno cynigion gerbron y Cynulliad i sefydlu pwyllgor ymgynghorol dan Reol Sefydlog 8.1 i gydlynu ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Papur Gwyn hwnnw cyn pen y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

***Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)***
*Ym mharagraff 3 (e) ar ôl "Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio" rhoi "a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol".*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

***Gwelliant 2 - David Melding (Canol De Cymru)***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Yn gresynu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu sicrhau rhagor o fesurau ar gyfer Cymru'n unig.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 2**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

***Gwelliant 3 – David Melding (Canol De Cymru)***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Yn gresynu at y methiant i gael mesur i sefydlu dydd Gwyl Dewi Sant fel gwyliau cyhoeddus swyddogol yng Nghymru.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 3**
O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 3**

***Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru)***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Yn gresynu at y methiant i gael mesur gydag ymrwymiad penodol i refferendwm ar statws Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 4**
O Blaid 10; Ymatal 9; Yn erbyn 33; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd Gwelliant 4**

***Gwelliant 5 - David Melding (Canol De Cymru)***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Yn credu y byddai pobl yng Nghymru sydd â salwch meddwl yn cael eu gwasanaethu'n well gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) dynodedig.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 5**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 5**

***Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Yn gresynu nad yw'r Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) yn caniatáu i'r holl feysydd polisi nas datganolwyd sydd yn ymwneud â phobl hyn fod yn faterion i Gomisiynydd Pobl Hyn Cymru.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 6**
O Blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 6**

***Gwelliant 7 – Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu bod y Papur Gwyn wedi methu rhoi argymhellion Comisiwn Richard ar waith yn llawn i roi pwerau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad Cenedlaethol.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 7**
O Blaid 19; Ymatal 2; Yn erbyn 30; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd Gwelliant 7**

***Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Yn galw ar y Prif Weinidog i gyflwyno anerchiad blynyddol sydd yn amlinellu rhaglen strategol ar gyfer llywodraeth yng Nghymru.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 8**
O Blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd Gwelliant 8**

***Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth sydd yn deillio o'r Papur Gwyn "Llywodraethu Gwell i Gymru" yn cynnwys darpariaeth i roi argymhellion Comisiwn Richard ar waith erbyn 2011.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 9**
O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 37; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd Gwelliant 9**

***Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)***
*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*
*Cred y Cynulliad Cenedlaethol mai'r sbardun ar gyfer cynnal unrhyw refferendwm i gael pwerau deddfu i'r Cynulliad fydd penderfyniad y Cynulliad a fydd wedi'i basio gan fwyafrif syml.*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 10**
O Blaid 15; Ymatal 9; Yn erbyn 26; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 10**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, fel y'i diwygiwyd:**

**NDM2487 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod Mai 2005 i Hydref/ Tachwedd 2006;

2. Yn croesawu cynnwys tri Mesur ar gyfer Cymru’n unig yn y rhaglen, ac y bydd pedwerydd yn cael ei gynhyrchu ar ffurf drafft ar gyfer craffu arno cyn deddfu;

3. Yn nodi bod y Mesurau arfaethedig a ganlyn yn arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau’r Cynulliad:

(a) y Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru) (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(b) y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

(c) y Mesur Gwella a Gwarchod Iechyd (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(d) y Mesur Iechyd Meddwl (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(e) y Mesur Plant a Mabwysiadu (Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(f) y Mesur Gwaith a Theuluoedd: Gofal Plant (Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes)

(g) Mesur Iawndal y GIG (Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)

(h) y Mesur Cydraddoldeb (Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal)

(i) y Mesur Elusennau (Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio)

(j) y Mesur Addysg a Sgiliau (Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes)

(k) y Mesur Llety Twristiaeth (Cymru) (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

(l) Mesur Diogelwch y Ffyrdd (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

(m) Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(n) y Mesur Lles Anifeiliaid (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(o) y Mesur Tir Comin (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(p) y Mesur Morol (Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad)

(q) Mesur y Loteri Genedlaethol (Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon)

(r) y Mesur Rheoleiddio Gwell (Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth)

4. Yn cynnwys y Mesurau uchod yng nghylchoedd gwaith y pwyllgorau perthnasol er mwyn iddynt eu hystyried fel sydd yn briodol yn eu barn hwy, ac yn gofyn i bob pwyllgor gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad cyn gynted ag sydd yn bosibl;

5. Yn nodi mai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl cyhoeddi’r Papur Gwyn sydd ar fin ei gyhoeddi, yw cyflwyno cynigion gerbron y Cynulliad i sefydlu pwyllgor ymgynghorol dan Reol Sefydlog 8.1 i gydlynu ymateb Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’r Papur Gwyn hwnnw cyn pen y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno

sylwadau.

6. Yn galw ar y Prif Weinidog i gyflwyno anerchiad blynyddol sydd yn amlinellu rhaglen strategol ar gyfer llywodraeth yng Nghymru.

O Blaid 33; Ymatal 9; Yn erbyn 10; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Dogfennau Ategol
*Mae'r Mesurau hynny a gyhoeddwyd ar gael drwy'r hyperddolenni canlynol:*
*Araith y Frenhines:*
http://www.number-10.gov.uk/output/Page4902.asp
*Y Mesur Comisiynydd Pobl Hyn (Cymru):*
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200506/ldbills/006/2006006.htm
*Y Mesur Trafnidiaeth (Cymru):*
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200405/cmbills/015/2005015.htm
*Y Mesur Iechyd Meddwl Drafft:*
http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/08/89/14/04088914.pdf
*Y Mesur Cydraddoldeb:*
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200405/cmbills/072/2005072.htm
*Y Mesur Elusennau:*
http://www.homeoffice.gov.uk/docs3/charitiesbill_foreward040527.pdf
*Mesur Diogelwch y Ffyrdd:*
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200405/cmbills/010/2005010.htm
*Mesur yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig:*?
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmbills/003/2006003.htm
*Y Mesur Lles Anifeiliaid:*
http://www.official-documents.co.uk/document/cm62/6252/6252.pdf
*Mesur y Loteri Genedlaethol:*
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200405/cmbills/007/2005007.htm
*Y Mesur Plant a Mabwysiadu:*
http://www.uk250.co.uk/frame.asp?id=6781&c=84&catUrl=http://www.hmso.gov.uk *Wedyn dewiswch "Legislation" ac wedyn "Bills before Parliament."*

**Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog - *Ni chynigiwyd y cynnig***

**NNDM2490 Jane Hutt (Vale of Glamorgan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

1. Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 5.4 sy'n mynnu bod y Datganiad Busnes Wythnosol yn glynu wrth yr amserlen y cytunwyd arni ar gyfer busnes y Cynulliad yn yr wythnos ganlynol;

2. Yn atal Rheol Sefydlog 6.13 er mwyn caniatau i NNDM2489 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Mehefin 2005; ac

3. Yn atal Rheol Sefydlog 6.14 er mwyn caniatau i unrhyw welliannau i NNDM2489, a gyflwynir cyn 5.30pm ar ddydd Mawrth 21 Mehefin 2005, gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Mehefin 2005.

......................................

**5.38pm**

**Cynnig i Atal y Rheolau Sefydlog**
**NDM2492 Jane Hutt (Vale of Glamorgan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 37.5:

1. Yn atal Rheol Sefydlog 6.13 er mwyn caniatáu i NNDM2491 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn Ddydd Mercher 22 Mehefin; a

2. Yn atal Rheol Sefydlog 6.14 er mwyn caniatáu i unrhyw welliannau i NNDM2491, a gyflwynir cyn 11.00am Ddydd Mercher 22 Mehefin 2005, gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn Ddydd Mercher 22 Mehefin 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**.....................................**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.39pm**

**.....................................**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm**

**ddydd Mercher, 22 Mehefin 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 17 Mehefin 2005**

The National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3824 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Higher Education Act 2004 (Commencement No.2 and Transitional Provision) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3825 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Highways (Schools) (Special Extinguishment and Special Diversion Orders) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3826 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

The Education (Induction Arrangements for School Teachers) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3827 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

http://assembly/plenary/Plenary/Laid%2520Documents/second/docs/2005/June/ld3828-e.rtfThe Street Works (Recovery of Costs) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3828 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

http://assembly/plenary/Plenary/Laid%2520Documents/second/docs/2005/June/ld3829-e.rtfThe Street Works (Sharing of Costs of Works) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3829 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

http://assembly/plenary/Plenary/Laid%2520Documents/second/docs/2005/June/ld3830-e.rtfThe Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3830 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

http://assembly/plenary/Plenary/Laid%2520Documents/second/docs/2005/June/ld3831-e.rtfThe Genetically Modified Organisms (Transboundary Movements) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3831 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*

http://assembly/plenary/Plenary/Laid%2520Documents/second/docs/2005/June/ld3832-e.rtfThe Scallop Fishing (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3832 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael*